**CORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**

**DEDDF ADNODDAU DŴR 1991**

# IS-DDEDDFAU GWIALEN A LLINYN AFON HAFREN (EOGIAID A BRITHYLLOD Y MÔR) (CYMRU) 2021

Mae Corff Adnoddau Naturiol Cymru, wrth arfer ei bwerau dan adran 210 a pharagraff 6(1)(b), 6(2)(b) a 6(2)(d) o Atodlen 25 i Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, yn gwneud yr is-ddeddfau canlynol.

**Is-ddeddf 1 – Teitl**

Gellir galw'r is-ddeddfau hyn yn Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn Afon Hafren (Eogiaid a Brithyllod y Môr) (Cymru) 2021.

**Is-ddeddf 2 – Defnydd**

Darllenir yr is-ddeddfau hyn ar y cyd ag Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 fel y'u diwygiwyd.

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i afon Hafren ac eithrio lle y nodir hynny'n unswydd.

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn dod i ben ymhen deng mlynedd ar ôl y dyddiad y daethant i rym am y tro cyntaf.

Is-ddeddf 3 – Dehongliad

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu'n wahanol:

(a) ystyr "pryf artiffisial" yw pryf pysgota sydd wedi cael ei adeiladu'n bennaf o ddefnyddiau ffwr a phlu naturiol neu synthetig ac sydd wedi'i gynllunio i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota

(b) ystyr "llith pysgota artiffisial" yw unrhyw ddyfais, gan gynnwys abwydau llwy, troellblu,

siglwyr a phlygiau, neu abwydau pysgod ffug artiffisial wedi eu gwneud o unrhyw ddefnydd, a gynlluniwyd i ddenu pysgod ac sy'n cynnwys bachyn pysgota

(c) ystyr “abwyd” yw unrhyw fwydyn, corgimwch a berdysen, boed yn naturiol neu yn artiffisial

(d) mae “heb adfach” yn golygu bachyn nad oes ganddo adfach, neu fachyn sydd ond ag adfach sydd wedi'i gywasgu'n llwyr

(e) “ceg bachyn” yw agoriad lletaf bachyn a ddefnyddir ar gyfer pysgota â gwialen a llinyn, y mesurir ei ddimensiynau o bwynt y bachyn yn syth ar draws i'w goes

(f) ystyr "Cyfoeth Naturiol Cymru" yw Corff Adnoddau Naturiol Cymru

(g) ystyr "afon Hafren" yw'r rhannau hynny o afon Hafren a'i hisafonydd yng Nghymru, ar wahân i afon Gwy ac isafonydd afon Gwy

(h) ystyr “eog” yw'r ddwy rywogaeth, sef eog Iwerydd (*Salmo salar*) ac eog cefngrwm (*Onchrynchus gorbuscha*)

ystyr "brithyll y môr" yw unrhyw bysgodyn o deulu'r eog a adwaenir yn gyffredinol fel brithyll y môr neu sewin (brithyll mudol), ac mae hefyd yn cynnwys rhan o frithyll y môr

(i) ystyr "Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995" yw'r is-ddeddfau sy'n rheoleiddio pysgota â gwialen a llinyn ac sy'n gwneud darpariaethau cyffredinol penodol mewn perthynas â materion pysgodfeydd a wneir gan ranbarth Cymru'r Awdurdod Afonydd Cenedlaethol

(h) Ac eithrio fel y darperir uchod neu lle mae'r cyd-destun yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir yn yr is-ddeddfau hyn yn cael eu diffinio gan yr ystyr a roddir iddynt gan Ddeddf Eogiaid a Physgodfeydd Dŵr Croyw 1975, Deddf Adnoddau Dŵr 1991 a Deddf yr Amgylchedd 1995 neu unrhyw addasiadau neu ailgread statudol ohonynt.

**Is-ddeddf 4 – Dal a rhyddhau gyda gwialen a llinyn (eogiaid neu frithyllod y môr)**

(a) Yn unol â'r darpariaethau sydd wedi'u cynnwys yn yr is-ddeddfau pysgodfeydd presennol sy'n berthnasol i'r Hafren, mae unrhyw berson sy'n cymryd unrhyw eog neu frithyll y môr, yn fyw neu'n farw, o Afon Hafren, trwy wialen a llinyn, heb awdurdodiad ysgrifenedig ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn euog o drosedd.

(b) Ni fydd yr is-ddeddf hon yn berthnasol i unrhyw unigolyn sy'n cymryd eog neu frithyll y môr yn gyfreithiol ac yn ei ddychwelyd i'r dŵr ar unwaith gyda'r anaf lleiaf posibl.

**Is-ddeddf 5 – Gwahardd dulliau pysgota am eogiaid a brithyllod y môr â gwialen a llinyn yn afon Hafren**

(1) Ar ôl paragraff (a) (1A) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (Bachau heb adfach neu fachau lle y tynnwyd adfachau), caiff y canlynol ei fewnosod –

"(1B) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren gan ddefnyddio unrhyw beth heblaw pryf artiffisial neu lith pysgota artiffisial.

(1C) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren gan ddefnyddio pryf artiffisial neu lith pysgota artiffisial oni bai ei fod yn cynnwys bachyn nad oes ganddo adfach, neu lle y tynnwyd adfachau."

(2) Ar ôl paragraff (aa) (2) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a

Bachu Pysgod) (bachau unigol), caiff y canlynol ei fewnosod –

"(3) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren trwy ddefnyddio abwyd."

**(3)** Ar ôl paragraff (c) (3) o Is-ddeddf 10 Is-ddeddfau Gwialen a Llinyn 1995 (Bachau a Bachu Pysgod) (Bachau Triphlyg), caiff y canlynol ei fewnosod –

"(4) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren â llith pysgota artiffisial sy'n cynnwys un neu fwy o fachau triphlyg.

(5) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren â phluen artiffisial oni bai ei fod yn cynnwys bachyn unigol heb adfach neu fachyn unigol y tynnwyd yr adfach oddi wrtho â ganddo geg nad yw'n fwy nag 13 mm, NEU fachyn unigol heb adfach, neu fachyn dwbl neu driphlyg y tynnwyd adfachau oddi wrtho lle nad yw ceg unrhyw fachyn/bachau dwbl neu driphlyg yn fwy na 7 mm.

(6) Ni fydd unrhyw unigolyn yn pysgota am eogiaid na brithyllod y môr, na'u cymryd, na cheisio pysgota amdanynt, na cheisio'u cymryd â gwialen a llinyn o afon Hafren gan ddefnyddio llith pysgota artiffisial oni bai ei fod yn cynnwys bachyn heb adfach, neu fachyn y tynnwyd yr adfach oddi wrtho, â ganddo geg nad yw'n fwy nag 13 mm wedi'i fesur o bwynt y bachyn i'w goes.

Ni fydd y cyfyngiad o fachyn unigol yn berthnasol i siglwyr, plygiau, nac abwydau pysgod ffug artiffisial lle caniateir hyd at uchafswm o dri bachyn heb adfachau, neu dri bachyn y tynnwyd yr adfachau oddi

wrthynt, a lle nad yw ceg pob bachyn unigol yn fwy nag 13 mm."

**CYFLAWNWYD** fel gweithred gan
**GORFF ADNODDAU NATURIOL CYMRU**
trwy osod y Sêl Gyffredin ym mhresenoldeb:

#88b

Llofnod:
....S. Asbrey.......

Enw (llythrennau bras): ....S. ASBREY.........

Cyfeiriad: ...TY CAMBRIA.....

...CARDIFF.............

......................................

Swydd: .PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL